y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Swyddog Maes Estyn Llaw

Disgrifiad Swydd

Teitl:	Swyddog Gwasanaethau Iaith
Cyflog:	Y raddfa gyflog flynyddol yw £16,493 - £20,597 y flwyddyn. Cynigir cynllun pensiwn rhan-ddeiliaid a chostau teithio sylfaenol i staff craidd.
Telerau:	Rhan amser – 50%. Cytundeb parhaol – yn ddibynnol ar gyllid a pherfformiad.
Oriau gwaith:	Wythnos waith arferol y cwmni yw 37.5 awr. Mae oriau gwaith y cwmni wedi eu seilio ar wythnos waith Llun-Gwener ac ar ddiwrnod gwaith 9.00a.m.-5.00p.m.. Fodd bynnag, caniateir hyblygrwydd yn y patrwm gwaith i gyfateb ag anghenion y gwaith a bydd disgwyl i'r swyddog weithio oddi allan i'r patrwm arferol o bryd i'w gilydd.
Lleoliad swyddfa:	Lleolir y swydd yn swyddfa'r cwmni yng Nghastell Newydd Emlyn.
Atebol i:	Prif Weithredwr y cwmni trwy'r Rheolwr Prosiectau Cymunedol.

Diben y swydd

Diben canolog y swydd yw darparu cyngor, ac arweiniad i fudiadau gwirfoddol a thrydydd sector yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ynglŷn â datblygu eu dwyieithrwydd drwy gyfrwng prosiect Estyn Llaw.

Dyletswyddau

Fel Swyddog Maes i Estyn Llaw yng Ngorllewin Cymru bydd yn rhaid i'r swyddog gyflawni'r canlynol:

- Darparu cyngor ac arweiniad i swyddogion mudiadau gwirfoddol yn lleol a rhanbarthol, drwy ymweliadau a chyfarfodydd, ar bynciau megis:
    - Datblygu a darparu gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog priodol
    - Datblygu dwyieithrwydd o fewn y gweithle
    - Denu gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith
    - Cynnal delwedd ddwyieithog
- Trefnu a darparu cyflwyniadau a hyfforddiant sylfaenol yn y pynciau uchod.
- Rhwydweithio â chyrff cynrychioliadol perthnasol i'r maes a chymryd pob cyfle i hyrwyddo negeseuon y prosiect.
- Hyrwyddo a marchnata Estyn Llaw ymhlith y gynulleidfa darged.
- Cynorthwyo Rheolwr Prosiectau Cymunedol IAITH i ddatblygu ein gwasanaethau ar gyfer y trydydd sector.

Gofynion cyffredinol:

- Meithrin cysylltiadau da gyda chwsmeriaid ar bob achlysur
- Cadw cofnodion gwaith trefnus a phwrpasol

Noder: Efallai y bydd cyfleoedd yn cynnig eu hunain i gynorthwyo swyddogion eraill y cwmni wrth weithredu rhai o brosiectau eraill y Ganolfan.

Proffil y Swyddog

Ystyrir y meini prawf canlynol yn hanfodol (neu'n fanteisiol) ar gyfer y swydd uchod:

Cymwysterau:

- Addysg uwchradd/addysg bellach dda mewn pwnc perthnasol
- Cymhwyster hyfforddiant (yn fanteisiol)

Sgiliau:

- rhuglder, ar lafar ac yn ysgrifenedig, mewn Cymraeg a Saesneg,
- sgiliau rhyngbersonol effeithiol,
- sgiliau cyflwyno effeithiol,
- sgiliau hyfforddi (yn fanteisiol),
- y gallu i weithio a threfnu gwaith yn annibynnol,
- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn hwylus,
- defnydd car a thrwydded yrru weithredol.

Gwybodaeth:

- gwybodaeth gyffredinol am y maes polisi a chynllunio iaith yng Nghymru;
- gwybodaeth gyffredinol am y trydydd sector yn lleol ac yn rhanbarthol (yn fanteisiol).

Agweddau:

- brwdfrydedd dros hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu'r defnydd ohoni,
- y gallu i gydweithio'n effeithiol fel rhan o dîm,
- ymlyniad i egwyddorion cydraddoldeb a chyfle cyfartal.

Profiad

- profiad o hyrwyddo neu gynghori (yn fanteisiol),
- profiad o weithio mewn mudiad gwirfoddol ar lefel leol neu ranbarthol (yn fanteisiol),
- profiad o hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg (yn fanteisiol).

Cyflwyno Cais

Gallwch gyflwyno cais trwy gwblhau'r ffurflen gais atodol sy'n cynnwys cyfle i chi fanylu ar eich addasrwydd ar gyfer y swydd, at:

Y Prif Weithredwr,
IAITH Cyf.,
Uned 3,
Parc Busnes Aberarad,
Castellnewydd Emlyn,
Sir Gâr,
SA38 9DB.

Dylai eich cais ein cyrraedd erbyn 10.00a.m. ar ddydd Gwener, 30 Medi 2011.

Gallwch gyflwyno ymholiadau pellach drwy ffonio'r Prif Weithredwr ar 01239 711668.